



**NODIADAU CYFARWYDDYD AR
GYFER CEISIADAU A WNEIR DAN
DDEDDF TRWYDDEDU 2003**

Trwydded Adeilad

Tystysgrif Adeilad Clwb

Trwydded Bersonol

Os ydych yn gwneud cais am drwydded dan Ddeddf Trwyddedu 2003, nodwch y pwyntiau canlynol:

1. Cyn i chi gwblhau'r gwaith papur, sicrhewch eich bod wedi darllen a deall y ddogfen gyfarwyddyd hon yn drylwyr, yn ogystal â'r nodiadau sydd ynghlwm wrth eich dogfennau cais. Gellwch ein helpu ni i'ch helpu chi drwy sicrhau bod pob dim yn ei drefn pan fyddwn yn derbyn eich cais. Bydd hyn yn ein galluogi i symud eich cais ymlaen i'r cam nesaf. Lle'n briodol, sicrhewch eich bod wedi amgáu unrhyw restrau gwirio a ddarparwyd gyda'r dogfennau cyfarwyddyd ynghyd â'r ffi ymgeisio angenrheidiol.
2. Sicrhewch eich bod hefyd yn anfon copi o'ch cais at yr holl awdurdodau cyfrifol perthnasol y mae'n rhaid eu hysbysu am eich cais i gael trwydded gan y Cyngor, lle'n briodol. Darperir rhestr o'r awdurdodau cyfrifol isod i'ch helpu i wneud hyn. Dylech gyflwyno'r copïau i'r awdurdodau cyfrifol ar yr un adeg â chyflwyno'r cais i'r Cyngor.
3. Bydd y Cyngor yn ateb ymholiadau penodol gan ymgeiswyr ynghylch gofynion y Ddeddf mewn perthynas â'r broses ymgeisio. Argymhellir i ymgeiswyr sydd am gael cyngor neu gymorth cyfreithiol penodol wrth roi eu ceisiadau at ei gilydd geisio cyngor annibynnol. Gallai hyn fod trwy bractis cyfreithiol neu ymgynghorydd trwyddedu. (Ni all y Cyngor wneud unrhyw argymhellion).

Rhestr o'r Awdurdodau Cyfrifol

Heddlu

Prif Swyddog yr Heddlu
Uned Trwyddedu'r Rhanbarth Dwyreiniol
Ffordd Dav
Stad Ddiwydiannol Llai
Llai
Wrecsam
LL12 0PG

Ffôn: 01978 290222

Tân

Canolfan Adnoddau's Gwasanaethau Ambiwlans a Tân
Ffordd Croesnewydd
Wrecsam
LL13 7YU

Ffôn: 0300 123 3249

Iechyd a Diogelwch

Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
16 Stryt yr Arglwydd
Wrecsam
LL11 1LG

neu'r Awdurdod Gweithredu
Iechyd a Diogelwch
Ail Lawr
Ty Regent
Stryd y Regent
Wrecsam
LL11 1PR

Ffôn: 01978 298990

Diogelwch Amgylcheddol

Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
16 Stryt yr Arglwydd
Wrecsam LL13 7TU

Ffôn: 01978 315725

Cynllunio

Y Prif Swyddog Cynllunio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
16 Stryt yr Arglwydd
Wrecsam
LL11 1LG

Ffôn: 01978 292500

Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Stryt Lambpit
Wrecsam LL11 1AR

Ffôn: 01978 295490

Safonau Masnach

Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio
Is-adran Safonau Masnach
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
16 Stryt yr Arglwydd
Wrecsam LL13 7TU

Ffôn: 01978 298997

Bwrdd Iechyd Prifysgol

Betty Hennigan
Swyddog Gweinyddiaeth ac Adnoddau
Cyfarwyddiaeth Iechyd Cyhoeddus
Preswylfa

Ffordd Hendy
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1PZ

Gorfodi Mewnffudo/Swyddfa Gartref

Adran Trwyddedi Alcohol
Lunar House
40 Wellesley Road
Croydon, CR9 2BY

TRWYDDED ADEILAD/TYSTYSGRIF ADEILAD CLWB

Darpariaethau Trosiannol – Gofynion y Cais

O 7 Chwefror 2005 ymlaen, daw'r darpariaethau trosiannol i rym, lle y gall dalwyr trwyddedau a thystysgrifau cofrestru clybiau presennol wneud cais i "drosi" eu trwyddedau a'u tystysgrifau i drwyddedau newydd dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Mae gofynion cais am **drosiad** fel a ganlyn:

1. Ffurflen gais wedi'i chwblhau – trwydded adeilad/tystysgrif adeilad clwb;
2. Os yw'r drwydded bresennol yn eich awdurdodi i gyflenwi alcohol, mae angen caniatâd y sawl sy'n dal y drwydded bersonol ac sydd am weithredu fel goruchwylydd yr adeilad, os nad nhw sy'n gwneud y cais (nid yw hyn yn gymwys i Dystysgrifau Adeilad Clwb);
3. Caniatâd gan yr unigolyn sy'n dal y drwydded bresennol, os nad yr ymgeisydd sy'n dal y drwydded bresennol;
4. Y ffi gywir;
5. Rhaid cyflwyno'r holl drwyddedau a thystysgrifau presennol – y dogfennau gwreiddiol neu lungopiau ohonynt wedi'u hardystio gan gyfreithiwr neu unigolyn proffesiynol arall;
6. Cynllun o'r adeilad ar y raddfa safonol - 1mm = 100mm (oni bai y cytunir ar ffurf arall gyda'r Cyngor ymlaen llaw). **Ni ddylai cynlluniau fod yn fwy na maint A3.**

Dylai cynllun yr adeilad gynnwys y canlynol:

- lleoliad ffiniau'r adeilad, os yn berthnasol, ac unrhyw waliau mewnol ac allanol sydd wedi'u cynnwys yn yr adeilad, neu y mae'r adeilad wedi'i gynnwys ynddynt;
- lleoliad mynedfeydd ac allanfeydd yr adeilad;
- lleoliad diangfeydd yr adeilad, os yn wahanol i'r uchod;

- os caiff yr adeilad ei ddefnyddio ar gyfer mwy nag un gweithgaredd trwyddedadwy, yr ardal o fewn yr adeilad a ddefnyddir ar gyfer pob gweithgaredd;
- strwythurau sefydlog (gan gynnwys dodrefn) neu wrthrychau tebyg sydd wedi'u gosod mewn lleoliad sefydlog dros dro (heb fod yn ddodrefn) a allai effeithio ar allu unigolion yn yr adeilad i ddefnyddio allanfeydd neu ddiangfeydd yn ddirwystri;
- os yw'r adeilad yn cynnwys llwyfan neu fan uchel, lleoliad ac uchder pob llwyfan neu fan mewn perthynas â'r llawr;
- os oes gan yr adeilad unrhyw risiau, codwyr neu lifftiau, lleoliad unrhyw rai o'r rhain;
- os yw'r adeilad yn cynnwys unrhyw ystafell neu ystafelloedd sy'n cynnwys cyfleusterau cyhoeddus, lleoliad unrhyw rai o'r rhain;
- lleoliad a math unrhyw offer diogelwch tân ac unrhyw offer diogelwch arall, gan gynnwys offer diogelwch morol, os yw'n briodol;
- lleoliad unrhyw gegin, os oes un, yn yr adeilad.

Gallai'r cynllun gynnwys allwedd os ydych yn defnyddio symbolau i gynrychioli'r uchod.

Rhaid i'r Heddlu dderbyn llungopi o'r cais ar yr un adeg ag y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn derbyn y cais.

Fel rheol, caiff yr amodau sy'n gysylltiedig â'r drwydded bresennol/trwyddedau presennol eu hymgorffori yn y drwydded newydd, heblaw mewn amgylchiadau pan fydd yr Heddlu'n gwrthwynebu'r cais, ac ategir y gwrthwynebiad hwn yn dilyn gwrandawriad.

Gofynion y cais – Newydd:

Ceisiadau newydd (annhrosiannol) ac amrywiadau

Bydd angen i'r ymgeiswyr hynny yn y categorïau canlynol gydymffurfio â'r gofynion a osodir yn yr adran hon:

(i) Ymgeiswyr sy'n methu â throsi eu trwydded bresennol/trwyddedau presennol cyn yr "ail ddiwrnod a enwyd" ym mis Tachwedd 2005, pan ddisgwyllir i Ddeddf Trwyddedu 2003 ddod i rym yn llawn;

(ii) Ymgeiswyr sy'n ceisio trwyddedau newydd ar ôl yr "ail ddiwrnod a enwyd";

(iii) Ymgeiswyr sy'n ceisio amrywiadau i'w trwyddedau presennol. Gallai amrywiadau gynnwys newidiadau i amseroedd agor yr adeilad neu newidiadau i siâp yr adeilad a gwmpesir gan y drwydded. Yn fwy na thebyg, bydd yn ymwneud â gweithgareddau trwyddedadwy'r drwydded neu'r amodau sydd ynghlwm wrthi.

Rhaid cyflwyno ceisiadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a rhaid iddynt gynnwys y canlynol:

- Ffurflen gais berthnasol wedi'i chwblhau;
- Os yw'n gais am dystysgrif adeilad clwb, mae angen copi o lyfr rheolau'r clwb a datganiad fod y clwb yn "glwb cymwys";
- Caniatâd unigolyn i gael eu henwi fel Goruchwylydd yr Adeilad, os nad yr ymgeisydd yw'r unigolyn hwnnw;
- Amserlen weithredu;
- Cynllun o'r adeilad (gweler y manylion uchod ynghylch gofynion);
- Os ydych am werthu alcohol, rhaid darparu enw **Goruchwylydd Dynodedig yr Adeilad** (oni bai ei fod yn glwb cymwys, sydd wedi'i eithrio);
- Y ffi benodedig.

Rhaid i'r amserlen weithredu hefyd gynnwys manylion yr holl weithgareddau trwyddedadwy a fydd yn cael eu cynnal yn yr adeilad, os caiff y drwydded ei chymeradwyo.

Rhaid i ymgeiswyr anfon copïau o geisiadau at yr holl **awdurdodau cyfrifol** a hysbysebu eu ceisiadau er budd **rhai sydd â diddordeb**, fel yr amlinellir isod.

Hysbysebu Ceisiadau

I hysbysebu'r cais, rhaid i'r ymgeisydd ddangos Rhybudd sy'n gyfwerth neu'n fwy na maint A4 (ar bapur glas golau) yn glir sydd wedi'i brintio'n eglur mewn inc du neu wedi'i deipio mewn ffont sy'n gyfwerth neu'n fwy na maint 16. Dylai hyn fod yn uniongyrchol ar yr adeilad, neu'r tu allan iddo am gyfnod heb fod yn llai nag wyth niwrnod ar hugain yn olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl cyflwyno'r cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Gallai rhai sydd â diddordeb wneud sylwadau mewn perthynas â'r cais yn ystod y cyfnod hwn.

Ar eiddo sy'n wynebu priffordd sy'n fwy na 50 metr o hyd, dylid arddangos y Rhybudd bob 50 metr.

Yn ogystal â hynny, rhaid cyhoeddi'r Rhybudd mewn papur lleol. Dylid gwneud hyn o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod o 10 diwrnod gwaith gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl cyflwyno'r cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Cynnwys y Rhybudd

Dylai'r Rhybudd gynnwys crynodeb byr o'r cais gan amlinellu'r manylion fel a ganlyn:

- Gweithgareddau trwyddedadwy perthnasol arfaethedig i'w cynnal yn neu o'r adeilad;
- Os yw'n gais am dystysgrif adeilad clwb, manylion arfaethedig gweithgareddau'r clwb cymwys sydd i'w cynnal yn neu o'r adeilad;
- Os yw'n gais i amrywio trwydded adeilad neu dystysgrif adeilad clwb, dylai'r rhybuddion ddisgrifio'r amrywiad arfaethedig.

- Os yw'n gais am ddatganiad dros dro:

(a) dylai ddatgan y cyfyngir sylwadau yn dilyn cyhoeddiad datganiad dros dro; ac
(b) os yn wybyddus, gallai ddatgan y gweithgareddau trwyddedadwy perthnasol y
bwriedir eu cynnal yn neu o'r adeilad.

Nodyn am Ddatganiadau Dros dro – os yw adeilad yn cael ei adeiladu/newid neu ar fin cael ei adeiladu/newid, mae'n bosibl na fydd y buddsoddwyr yn ymrwymo'r buddsoddiad nes iddynt gael sicrwydd, nid yn unig fod gan y prosiect y caniatâd cynllunio priodol, ond bod rhywfaint o sicrwydd y byddai Trwydded Adeilad sy'n cwmpasu'r gweithgareddau trwyddedadwy dymunol yn cael ei chymeradwyo ar gyfer yr adeilad unwaith i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau.

Felly, gallai ymgeiswyr wneud cais am ddatganiad dros dro, sy'n dynodi p'un a yw trwydded adeilad yn debygol o gael ei chymeradwyo unwaith i'r gwaith adeiladu neu'r newidiadau sy'n unol â'r cynlluniau ddod i ben.

Ym mhob achos, dylai'r rhybuddion gynnwys:

- enw'r ymgeisydd neu'r clwb;
- cyfeiriad post yr adeilad neu adeilad y clwb, os oes un, neu os nad oes cyfeiriad post ar gyfer yr adeilad, disgrifiad o'r adeilad hwnnw sy'n ddigon i alluogi pobl i wybod lleoliad a maint yr adeilad;
- cyfeiriad post a, lle'n briodol, cyfeiriad y we byd eang lle cedwir cofrestr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a lle gellir archwilio'r cais (gweler troedyn y ddogfen gyfarwyddyd hon);
- y dyddiadau y gall unrhyw rai sydd â diddordeb neu'r awdurdodau cyfrifol wneud sylwadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam rhyngddynt (gweler hysbysebu ceisiadau uchod);
- datganiad y dylid cyflwyno sylwadau'n ysgrifenedig; a
- datganiad ei fod yn drosedd i wneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll mewn perthynas â chais, a'r ddirwy fwyaf y mae unigolyn yn atebol i'w dalu yn dilyn euogfarn - £5000.

TRWYDDEDAU PERSONOL

Cyffredinol

Cymeradwyr trwyddedau personol i unigolion, ac maent yn awdurdodi'r unigolion hynny i gyflenwi alcohol neu'n awdurdodi cyflenwad alcohol yn unol â thrwydded yr adeilad.

Yr "Awdurdod Trwyddedu" yw'r awdurdod trwyddedu sy'n cymeradwyo'r drwydded. Penderfynir yr awdurdod trwyddedu perthnasol hwn gan leoliad cyfeiriad cartref yr ymgeisydd. Mae'r awdurdod hwn yn parhau'r un fath unwaith i'r drwydded gael ei

chymeradwyo, hyd yn oed os bydd daliwr y drwydded yn symud i weithio mewn ardal awdurdod trwyddedu arall.

Mae dau fath o gyflenwi:

Manwerthu alcohol;

Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb, neu ar orchymyn, i aelod o'r clwb.

Rhaid i'r ymgeisydd fod yn 18 oed neu'n hŷn.

Gall unigolyn wneud cais am/ddal **UN** drwydded bersonol ar unrhyw adeg.

Gall daliwr y drwydded ildio ei drwydded/ei thrwydded bersonol ar unrhyw adeg yn amodol ar roi rhybudd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Yr Heddlu yw'r unig gorff a all wrthwynebu cais am drwydded bersonol. Mae hyn ar ffurf rhybudd o wrthwynebiad yn dilyn datguddiad trosedd "perthnasol" sydd heb ddarfod neu drosedd "dieithr". Rhaid i'r gwrthwynebiad fod ar sail atal trosedd – fel arall ni all Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ei ystyried fel rheswm i wrthod y cais.

Rhaid derbyn unrhyw wrthwynebiad o fewn 14 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y bu i'r Heddlu dderbyn y rhybudd.

Rhaid cynnal gwrandawriad, oni bai i'r ymgeisydd, yr Heddlu a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gytuno ei fod yn ddiangen.

Gofynion y cais - **Trosiannol**

Rhaid i unrhyw ymgeisydd sy'n ceisio trwydded bersonol dan y trefniadau uchod fodloni'r meini prawf canlynol:

1. Mae gan yr ymgeisydd drwydded ynad a gyhoeddwyd dan ddarpariaethau Deddf Trwyddedu 1964 ar yr adeg y mae'n gwneud y cais;
2. Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno'r drwydded ynad neu gopi ardystiedig ohoni ynghyd â 2 lun pasport (45mm x 35mm) o'u hunain, gyda chyfreithiwr, notari, athro/athrawes, darlithydd neu unigolyn proffesiynol arall wedi ardystio bod y llun yn debygrwydd cywir i'r ymgeisydd ar gefn un ohonynt;

(Rhaid tynnu'r lluniau ar bapur ffotograffig yn erbyn cefndir golau, gan ddangos y wyneb yn llawn heb ei orchuddio, oni bai fod hyn oherwydd cred grefyddol, a heb sbectol haul.)

3. Rhaid i'r ymgeisydd wneud cais o fewn 6 mis o'r dyddiad cyntaf a enwyd, hynny yw 7 Chwefror 2005;
4. Rhaid i'r ymgeisydd roi manylion unrhyw euogfarnau mewn perthynas â throedd "perthnasol" neu "ddieithr";

5. Rhaid i'r Heddlu fod wedi derbyn copi o'r cais o fewn 48 awr ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno;
6. Mae'r ymgeisydd wedi talu'r ffi briodol a chwblhau'r ffurflen gais berthnasol.

Gofynion y cais - **Newydd**

Rhaid i unrhyw ymgeisydd sy'n ceisio trwydded bersonol newydd fodloni'r meini prawf canlynol:

1. Rhaid iddynt fod yn 18 oed neu'n hŷn;
2. Mae'r ymgeisydd wedi darparu 2 lun pasport (45mm x 35mm) o'u hunain, gyda chyfreithiwr, notari, athro/athrawes, darlithydd neu unigolyn proffesiynol arall wedi ardystio bod y llun yn debygrwydd cywir i'r ymgeisydd ar gefn un ohonynt

(Rhaid tynnu'r lluniau ar bapur ffotograffig yn erbyn cefndir golau, gan ddangos y wyneb yn llawn heb ei orchuddio, oni bai fod hyn oherwydd cred grefyddol, a heb sbectol haul.)
3. Mae'r ymgeisydd yn meddu ar gymhwyster trwyddedu a achredwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (neu un sydd wedi'i ardystio fel petai'n gymhwyster tebyg, neu ei fod yn cael ei ystyried yn gyfwerth) neu'n unigolyn o ddisgrifiad a ragnodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau;
4. Rhaid iddynt fod wedi peidio ag ildio trwydded bersonol o fewn 5 mlynedd o wneud y cais;
5. Rhaid i'r Heddlu fod wedi derbyn copi o'r cais o fewn 48 awr ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno;
6. Nid yw'r Heddlu wedi gwrthwynebu'r cais am drwydded bersonol ar ôl cael gwybod am unrhyw drosedd "perthnasol" neu "ddieithr";
7. Mae'r Heddlu wedi cyflwyno rhybudd o wrthwynebiad o ganlyniad i euogfarn am drosedd "perthnasol" neu "ddieithr" sydd heb ddarfod, ond nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi'i hystyried yn angenrheidiol i wrthod y cais ar sail atal trosedd;
8. Datganiad gan yr ymgeisydd (cwblhau ffurflen Datguddio Euogfarnau a Datganiad) nad yw wedi'i farnu'n euog o gyflawni trosedd perthnasol na throsedd dieithr;
9. Cyflwyno un o'r canlynol:
 - (i) tystysgrif euogfarn troseddol a gyhoeddwyd dan adran 112 Deddf yr Heddlu 1997(a) – datguddiad "sylfaenol" gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, sy'n cynnwys euogfarnau sydd heb ddarfod yn unig;
 - (ii) tystysgrif cofnod troseddol a gyhoeddwyd dan adran 113A Deddf yr Heddlu 1997 – datguddiad "safonol" gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, sy'n cynnwys manylion unrhyw euogfarnau sydd wedi darfod neu sydd heb ddarfod ynghyd ag

unrhyw rybuddion;

(iii) canlyniadau chwiliad dinesydd dan Ddeddf Gwarchod Data 1998(b) ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu gan y Gwasanaeth Adnabyddiaeth Cenedlaethol; ac

mewn unrhyw achos, caiff tystysgrif neu ganlyniad chwiliad o'r fath ei gyhoeddi heb fod ynghynt nag un mis calendr cyn cyflwyno'r cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cael un o'r Datgeliadau Swyddfa Cofnodion Troseddol ym mhwyntiau (i) a (ii) uchod. Codir ffi gan y DBS am ddarparu'r Datgeliad i'r ymgeisydd. Gweler y ddolen i wneud cais am Ddatgeliad Sylfaenol - <https://www.gov.uk/request-copy-criminal-record>

10. Mae'r ymgeisydd wedi talu'r ffi briodol a chwblhau'r ffurflen gais perthnasol.
11. Gall unrhyw unigolyn wneud cais am drwydded bersonol p'un a ydynt yn gyflogedig neu fod ganddynt ddiddordebau busnes sy'n gysylltiedig â defnydd y drwydded ai peidio.

Gofynion Mewnfudo

Rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt yr hawl i weithio yn y DU ac nad ydynt yn ddarostyngedig i amod sy'n eu hatal rhag gwneud Gwaith sy'n ymwneud â chynnal trwyddedu gweithgaredd. Maen nhw'n gwneud hyn trwy ddarparu gyda'r dogfennau penodedig. Am fwy ofanylion, cysylltwch ar Adran Trwyddedu.

17/04/18